

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Polisi Gorfodi a Chydymffurfio Ynghylch Cynllunio



Mabwysiadwyd 22 Mehefin 2011



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**

**Pembrokeshire Coast
National Park**

Cynnwys

Rhan 1: Gweledigaeth, nodau ac amcanion	2
Rhan 2: Blaenoriaethau.....	3
Rhan 3: Gwneud penderfyniadau.....	6
4 Atodiad: Amlinelliad o fesurau gorfodi.....	9
5 Atodiad 1 Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol	12

Rhan 1: Gweledigaeth, nodau ac amcanion

- 1.1 Mae gwasanaeth gorfodi a chydymffurfio ynghylch cynllunio effeithiol yn rhan annatod o lwyddiant y system gynllunio, ac o gyflawni anghenion datblygu'r gymuned wrth warchod a gwella nodweddion arbennig y tirlun, yr adnoddau diwylliannol a gofalu am ei les economaidd a chymdeithasol.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn nodi polisiau a gweithdrefnau'r Awdurdod sy'n ymdrin â materion gorfodi a chydymffurfio ynghylch cynllunio, ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer tor-rheolaeth gynllunio difrifol a sensitif i amser.
- 1.3 Nod y gwasanaeth yw:
 - bod yn amserol, effeithiol ac ymatebol wrth atal, rheoli ac adfer datblygiadau anawdurdodedig, gan sicrhau hygyrdd y gwasanaeth cynllunio er lles diogelu amwynder cyhoeddus, adfer unrhyw niwed a achoswyd gan ddatblygiadau, ac wrth gyflawni dibenion statudol y Parc Cenedlaethol.
 - cynnal gweithdrefnau monitro effeithiol er mwyn sicrhau y cyflawnir datblygiadau awdurdodedig yn unol â'r cymeradwyaethau a'r amodau cynllunio.
- 1.4 Wrth ddarparu ei wasanaeth gorfodi a chydymffurfio, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cyflawni amcanion allweddol rhaglen "Cynllunio: Cyflawni dros Gymru" Llywodraeth Cynulliad Cymru gan eu bod yn berthnasol i'r broses gorfodi, h.y. i fod yn agored, teg a thryloyw wrth drafod â'r achwynydd a'r troseddwr honedig.
- 1.5 Rhaid i'r holl bartïon sy'n gysylltiedig â gorfodi cynllunio gofio nad yw torri rheolau cynllunio yn drosedd, ac eithrio gwaith anawdurdodedig ar Adeiladau Rhestredig a hysbysebion anghyfreithlon. Mae cymryd camau i ymdrin â thorri rheolau cynllunio yn ddewisol ac yn ôl cyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru, dim ond ar adegau priodol y dylid cymryd camau gorfodi a dylai'r camau gorfodi hynny bob amser fod yn gymesur â'r rheolaeth gynllunio berthnasol a dorrwyd ac nid cosbi'r person(au) cyfrifol. (Gweler para 3.8 Polisi Cynllunio Cymru LICC a TAN 9 Gorfodi Rheolaeth Gynllunio).
- 1.6 Mae yna adroddiad ar yr ymgynghoriadau, sy'n nodi sut ymgynghorwyd ar y Canllawiau, ar gael i'w ddarllen ar wefan yr Awdurdod¹.

¹ <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=183> . Dolen ar yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriadau ar y wefan

Rhan 2: Blaenoriaethau

Polisi 1: Caiff honiadau o dorri rheolau cynllunio eu harchwilio yn briodol yn unol â'r egwyddorion canlynol sydd mewn trefn blaenoriaeth ac yn ôl system "golau traffig".

Blaenoriaeth Uchel - Coch

- i. Datblygiadau anawdurdodedig sy'n achosi niwed uniongyrchol ac anadferadwy difrifol i'r amgylchedd neu amwynder cyhoeddus, yn enwedig unrhyw waith a ystyrir yn niweidiol i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, er enghraifft, gwaith anawdurdodedig i adeiladau rhestredig, dymchwel adeiladau anrhestredig mewn Ardal Gadwraeth, gwaith anawdurdodedig sylweddol i henebion, safleoedd archeolegol pwysig, rhywogaethau gwarchodedig neu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
- ii. Datblygiadau anawdurdodedig sy'n achosi aflonyddwch ar gymdogion neu sy'n bygwth diogelwch cyhoeddus.
- iii. Gwaith anawdurdodedig i goed sydd wedi eu gwarchod gan Orchymyn Cadwraeth Coed (TPO) neu mewn Ardal Gadwraeth.

Blaenoriaeth Ganolig - Melyn

- i. Tor-rheolaeth gynllunio sy'n cyferbynnu â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol.
- ii. Cwynion sy'n ymwneud â phan bod y terfyn amser ar gyfer cymryd camau ffurfiol bron a dod i ben.
- iii. Cwynion am niwed sylweddol yn cael ei wneud i amwynder, er enghraifft, estyniadau i eiddo preswyl sy'n edrych dros eiddo rhywun arall yn ormodol neu sy'n arwain at broblem amwynder arall, defnydd anawdurdodedig o dir sy'n achosi problemau amwynder i eiddo cyfagos.
- iv. Dechrau datblygu heb gydymffurfio ag amodau'r caniatâd cynllunio.
- v. Gosod hysbysebion anawdurdodedig sy'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar ddiogelwch ar y ffordd neu amwynderau gweledol.

Trydedd flaenoriaeth - Gwyrdd

- I. Torri mân rheolau cynllunio, oni bai eu bod wedi'u nodi uchod.
- II. Mân faterion domestig sy'n ymwneud â ffensiau/siediau/lloerenni, anghydfodau ynglŷn â ffiniau a pherchnogaeth, newidiadau

- anawdurdodedig i ddefnydd nad yw'n uniongyrchol yn achosi pryder o bwys.
- III. Datblygiadau anawdurdodedig eraill nad ydynt yn destun cwyn cyhoeddus o bwys.
- IV. Hysbysebion anawdurdodedig nad ydynt wedi'u nodi uchod.
- 2.1 Yn dibynnu ar ddifrifoldeb y dor-rheolaeth honedig a'r adnoddau sydd ar gael, bydd yr amser targed ar gyfer yr ymateb cychwynnol fel a ganlyn:-
- Achosion **Blaenoriaeth Uchel**: Gwneir ymweliad â'r safle ac archwiliad cychwynnol o fewn un diwrnod gwaith o dderbyn yr achos.
 - Achosion **Blaenoriaeth Ganolig**: Gwneir ymweliad â'r safle ac archwiliad cychwynnol o fewn saith diwrnod gwaith o dderbyn yr achos.
 - Achosion **Trydedd Flaenoriaeth**: Gwneir ymweliad â'r safle ac archwiliad cychwynnol o fewn pymtheg diwrnod gwaith o dderbyn yr achos.
- 2.2 I gychwyn, caiff pob achos ei raddio yn ôl blaenoriaeth. Wrth drefnu ymweliadau safle mewn achosion blaenoriaeth uchel, bydd y swyddogion gorfodi yn ystyried ymweld â safleoedd achosion blaenoriaeth is ar yr un daith os yw hynny'n gyfleus. Gall blaenoriaeth achos newid yn dilyn ymweliad â'r safle neu ar ôl derbyn gwybodaeth ychwanegol.
- 2.3 Rhoddir ffurflen cydnabod i'r achwynydd o fewn pum diwrnod. Tra bod yr archwiliad yn cael ei gynnal, caiff yr achwynydd wybod am y cynnydd a'r canlyniad yn ysgrifenedig. Nod y tîm Gorfodi fydd cyflawni cam cyntaf yr archwiliad gorfodi o fewn deuddeg wythnos o'r dyddiad a dderbyniwyd y cwyn yn wreiddiol. Caiff perfformiad y tîm i gwrdd â'r targedau hyn eu monitro a'u hadrodd yn rheolaidd i Bwyllgor Adolygu Cadwraeth a Chynllunio yr Awdurdod.
- 2.4 Cwblheir cam cyntaf yr archwiliad pan gyflawnir un o'r pwyntiau canlynol:
- a. Caiff yr achos ei gau oherwydd nad yw'r archwiliad yn adnabod bod unrhyw reolau cynllunio wedi'u torri neu nid oes rheswm da dros gymryd camau pellach oherwydd pa mor ddibwys yw'r dor-rheolaeth.
 - b. Caiff yr achos ei gau oherwydd ymdriniwyd â'r dor-rheolaeth gynllunio mewn trafodaeth.
 - c. Yn dilyn yr archwiliad, cyflwynwyd cais cynllunio neu ffurf arall o gais ynghylch y datblygiad anawdurdodedig.

- d. Adnabuwyd bod rheol gynllunio wedi'i thorri a gofynnwyd am gais ond ni chafodd ei gyflwyno. Cyflawnwyd asesiad er mwyn penderfynu nad yw'n briodol i gymryd camau gorfodi ffurfiol ar hyn o bryd.
- e. Adnabuwyd tor-rheolaeth gynllunio a chyflawnwyd asesiad er mwyn penderfynu nad yw'n briodol i gymryd camau gorfodi ffurfiol: awdurdodwyd camau gweithredu priodol gan y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau neu o dan gynllun dirprwyo'r Awdurdod.

Polisi 2: Derbynnir cwynion ynglŷn â thor-rheolaeth gynllunio honedig drwy lythyr, e-bost, dros y ffôn neu drwy alwr personol, ar yr amod bod yr achwynydd yn rhoi ei enw, ei gyfeiriad a'i rif ffôn.

- 2.5 Gwneir pob ymdrech i dawelu meddwl unrhyw un sy'n dymuno cwyno am gyfrinachedd eu manylion. Ni chaiff tor-rheolaeth gynllunio honedig anhysbys fel arfer ei harchwilio oni bai ei bod yn ddifrifol. Anogir achwynwyr i ddefnyddio ffurflen safonol er mwyn nodi eu cwynion, a dylai pob achwynydd ddynodi'n glir lleoliad y safle neu'r eiddo dan sylw, natur y broblem ac unrhyw niwed a achosir. Byddai'n gynorthwyol petai'r achwynydd yn cynnwys gwybodaeth am y person neu'r sefydliad a dybiwyd yn gyfrifol a dyddiad neu amser y dor-rheolaeth.
- 2.6 Cydnabyddir yr achwynydd yn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith a chaiff wybod pwy yw'r swyddog sy'n ymdrin â'r achos a'i (f)manylion cyswllt, ynghyd â'r cynnydd a wneir ar y camau canlynol:
 - asesiad cychwynnol o'r broblem,
 - pryd y gweinir unrhyw rybuddion ffurfiol
 - cyflwyno apêl neu gymryd camau eraill yn y llys
 - ymgymryd ag unrhyw erlyniad
 - cau'r archwiliad yn derfynol gan gynnwys y rhai a gaewyd oherwydd nad oeddent yn briodol/na ddynodwyd tor-rheolaeth
- 2.7 Os yw'r mater tu hwnt i bŵer Awdurdod y Parc Cenedlaethol, caiff yr achwynydd ei hysbysu'n ysgrifenedig cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ynglŷn â pham na ellir cymryd camau, a chânt eu cyngori ar unrhyw gorff arall y dylent gysylltu â nhw os yw hyn yn briodol ac yn hysbys.
- 2.8 Tra diogelir hunaniaeth achwynwyr, gallai llwyddiant unrhyw gamau gorfodi dilynol ddibynnu ar eu parodrwydd i gydweithredu a rhoi tystiolaeth o bosib ar gyfer apêl neu mewn gwrandawriad llys.

Rhan 3: Gwneud penderfyniadau

Polisi 3: Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn arfer ei hawl i gymryd camau gorfodi os byddai'n ystyried y byddai hynny'n briodol. Ni chymerir camau gorfodi ffurfiol er mwyn rheoleiddio tor-rheolaeth gynllunio yn unig pan na achosir niwed dangosadwy. Wrth gymryd camau gorfodi ffurfiol, bydd Awdurdod y Parc Arfordir yn barod i ddefnyddio'r holl bwerau gorfodi sydd ar gael sy'n gymesur â difrifoldeb y dor-rheolaeth.

- 3.1 Wrth benderfynu p'un ai i gymryd camau gorfodi neu beidio, bydd Awdurdod y Parc Arfordir yn ystyried y cynllun datblygu ac unrhyw ddeunydd arall, gan gynnwys polisiau cenedlaethol a chanllawiau Polisi Cynllunio Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol a Chanllawiau Cynllunio Atodol.
- 3.2 Y prif fater i'r awdurdod wrth ystyried camau gorfodi yw a fyddai torri rheolaeth gynllunio'n effeithio'n annerbyniol ar amwynder cyhoeddus neu a ydy'r defnydd presennol o'r tir a'r adeiladau'n haeddu cael ei diogelu er budd y cyhoedd neu'r amgylchedd naturiol. Bydd unrhyw gamau a gymerir yn gymesur â'r rheolaeth gynllunio berthnasol a dorwyd. Bydd pob penderfyniad ynghylch p'un ai i gymryd camau gorfodi neu beidio yn cael ei nodi ar ffeil/gronfa ddata ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad.
- 3.3 Adlewyrcha hyn yr ymagwedd at orfodi a nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 9 Gorfodi Rheolaeth Gynllunio. Pan fydd rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad yn debygol, bydd gofyn fel arfer i'r person cyfrifol gyflwyno cais cynllunio ôl-weithredol. Fel arfer, ni fyddai'n briodol i gymryd camau gorfodi ffurfiol am dor-rheolaeth gynllunio ddibwys neu dechnegol sydd ddim yn peri unrhyw niwed i amwynderau neu'r amgylchedd.
- 3.4 Pan amddiffynnir cymryd camau gorfodi ar ffurf apêl neu yn y llys, bydd angen dangos bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r gweithdrefnau perthnasol ac wedi ystyried y polisiau cenedlaethol ar gynllunio a gorfodi.

Polisi 4: Yr Aelodau fydd yn gwneud y penderfyniadau ynghylch cymryd camau gorfodi cynllunio trwy'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau (neu o dan Gynllun Dirprwyo'r Awdurdod os caiff ei ymestyn yn y dyfodol). Seilir unrhyw benderfyniad i gymryd camau ar adroddiad ysgrifenedig, ac fe fydd yn ystyried unrhyw gyngor a dderbyniwyd oddi wrth y Cyfreithiwr, a chaiff ei gytuno gan y Pwyllgor (neu ei awdurdodi gan Bennaeth yr Adran Rheoli Datblygiadau, Cyfarwyddwr Cadwraeth a Chynllunio, neu Brif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) os yw'r Cynllun Dirprwyo yn parhau

- 3.5 Dylai amllder cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau leihau'r angen am gamau gorfodi brys, ond gallant fod yn angenrheidiol ar adegau. Dim ond y Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) neu'r Cyfarwyddwr Cadwraeth a Chynllunio all awdurdodi camau gorfodi brys – mewn ymgynghoriad â Chadeirydd, neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau. Pan roddir yr awdurdodiad hwn, ystyrir unrhyw gyngor a roddwyd gan Bennaeth yr Adran Rheoli Datblygiadau a'r Cyfreithiwr. Caiff unrhyw gamau brys eu hadrodd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau er mwyn cadarnhau'r camau a gymerwyd.

Polisi 5: Yn unol â pholisi Awdurdod y Parc Cenedlaethol, nid oes hawl gan Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau sy'n gwasanaethu fel Ynadon neu sydd â phartneriaid neu aelodau agos o'u teuluoedd yn gwasanaethu fel Ynadon gyfrannu at unrhyw benderfyniadau ar faterion gorfodi a allai arwain at gymryd camau cyfreithiol ffurfiol.

- 3.6 Crëwyd y polisi hwn i osgoi unrhyw ganfyddiad bod gan Aelodau'r Awdurdod sy'n gwasanaethu fel Ynadon fuddiannau yn gwrthdaro.

Polisi 6: Wrth benderfynu p'un ai i gymryd camau gorfodi neu beidio, ni ystyrir y ffaith bod y datblygiad eisoes ar waith.

- 3.7 Ar wahân i amgylchiadau penodol iawn, er enghraifft, gwaith ar adeiladau rhestredig, nid yw'n drosedd i gyflawni datblygiadau heb ganiatâd cynllunio, ac felly mae'n bwysig bod datblygiadau anawdurdodedig yn cael eu barnu ar eu haeddiant yn yr un ffordd â'r datblygiadau arfaethedig. Bydd y prawf cymwysedig yn trafod "a fyddai caniatad cynllunio wedi'i roi ar gyfer y datblygiad hwn os bu'n destun cais cynllunio?"

Polisi 7: Gwneir penderfyniadau i beidio â chymryd camau gorfodi fel arfer gan Bennaeth yr Adran Rheoli Datblygiadau yn unol â'r trefniadau dirprwy swyddogion. Cofnodir unrhyw resymau dros beidio â chymryd camau yn ysgrifenedig/ar y gronfa ddata.

Polisi 8: Ni fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol o reidrwydd yn caniatáu trafodaethau hirfaith i oedi camau gorfodi hanfodol.

- 3.8 Tra bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymdrechu i oresgyn unrhyw ddrwg a achoswyd gan ddatblygiadau anawdurdodedig drwy drafodaethau pan fo'n bosibl, mae'r system gorfodi yn colli hygyrdd yn gyflym os yw datblygiadau annerbyniol yn parhau oherwydd trafodaethau gorfodi hirfaith neu estynedig a gallant arwain at achosion mwy costus a chymhleth. Felly gosodir terfyn amser ar gyfer cwblhau trafodaethau yn ôl blaenoriaeth yr

achos ond anelir at ddod â'r cwyn cychwynnol i ben o fewn deuddeg wythnos o'i ddyddiad.

Polisi 9: Mewn sefyllfaoedd lle derbynnir datblygiad anawdurdodedig oherwydd gorfodwyd amodau cynllunio priodol, gofynnir am gais cynllunio i reoleiddio'r datblygiad. Pan na chaiff cais ei gyflwyno o fewn y radd amser gytunedig, cyflwynir rhybudd gorfodi a fydd yn gofyn am gamau cydymffurfio sy'n gymesur â'r dor-rheolaeth ynghyd â datganiad sy'n nodi bwriad Awdurdod y Parc o roi caniatad cynllunio sy'n ddarostyngedig i amodau penodol.

3.9 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn sicrhau, lle ystyrir datblygiad anawdurdodedig yn dderbyniol, bod y rhybudd ynghyd â'r datganiad yn diogelu buddiannau y perchenogion/datblygwyr yn y dyfodol.

Polisi 10: Wrth ystyried p'un ai i gymryd camau gorfodi neu beidio, ni fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn rhoi sylw i ystyriaethau heb fod yn rhai cynllunio.

3.10 Nid pwrpas y system cynllunio yw diogelu buddiannau preifat un person yn erbyn y llall. Mae'n rhaid gweithredu ar sail rhesymau cynllunio cadarn. Ni ystyrir gwrthwynebiad neu gefnogaeth lleol i ddatblygiad anawdurdodedig oni bai bod y gwrthwynebiad neu'r gefnogaeth wedi'i seilio ar resymau cynllunio dilys.

Polisi 11: Wrth ystyried camau gorfodi, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cydweithio'n agos â Chyngor Sir Penfro oherwydd y pwerau sydd ganddo o dan deddfwriaethau eraill.

3.11 O bryd i'w gilydd, gellir cyflawni canlyniadau mwy effeithiol ac effeithlon drwy ddefnyddio pwerau tu hwnt i deddfwriaeth Cynllunio Tref a Gwlad. Mae hefyd yn bwysig bod camau gorfodi Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi'u cydlynu lle bo'n briodol gyda chamau gweithredu yn cael eu hystyried neu eu cymryd gan y Cyngor Sir dan deddfwriaeth arall.

4 Atodiad: Amlinelliad o fesurau gorfodi

Rhybudd Tramgwydd Cynllunio

- 4.1 Mewn rhai amgylchiadau, ni fydd ymweliadau safle neu fanylion cwynion yn darparu'r holl ffeithiau angenrheidiol. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid cyflwyno rhybudd ffurfiol i bawb sy'n gysylltiedig â'r tir. Mewn achos o'r fath, cyflwynir Rhybudd Tramgwydd Cynllunio sy'n gofyn i'r derbynnydd ddarparu gwybodaeth ofynnol am y dor-rheolaeth honedig o fewn 21 diwrnod. Mae methiant i ddychwelyd y ddogfen hon wedi'i chwblhau yn drosedd a byddwch yn atebol i'r Llys Ynadon.

Rhybudd Torri Amod

- 4.2 Mae'r rhybudd hwn yn ddewis amgen i Rybudd Gorfodi ar gyfer adfer tor-rheolaeth sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio ag unrhyw amod neu gyfyngiad sy'n ddarostyngedig i'r math o ganiatâd cynllunio sydd wedi'i roi. Nid yw'n bridiant cyfreithiol ar y tir a gellir ei gyflwyno i'r person sy'n gyfrifol am y dor-rheolaeth yn unig. Gallai fod yn orfodol (bod rhywbeth yn gorfod cael ei wneud) neu'n waharddol (bod rhywbeth yn gorfod cael ei stopio). Bydd yn nodi cyfnod cydymffurfio na all fod yn llai na 28 diwrnod. Ni ellir apelio yn erbyn rhybudd o'r fath mewn Llys Ynadon.

Rhybudd Gorfodi

- 4.3 Mae'n rhaid i'r rhybudd hwn, ar ei gyflwyniad, nodi'r dor-rheolaeth honedig ynghyd â'r camau i'w hadfer o fewn amserlen benodedig ac mae'n rhaid iddo gael ei gyflwyno i bawb sy'n gysylltiedig â'r tir. Gallai hyn olygu cyflwyno'r rhybudd i'r morgeisiai h.y. y Banc neu'r Gymdeithas Adeiladu a fenthycodd yr arian i brynu'r eiddo neu aelodau'r teulu sy'n gysylltiedig â'r eiddo. Gall y Rhybudd naill ai gyfeirio at Newid Defnydd y tir neu ddatblygiad gweithredol. Gellir apelio o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r rhybudd a gellir seilio'r apêl ar chwe rheswm. Os na atebir gofynion y rhybudd, ac os nad oes apêl wedi'i chyflwyno neu ei gwrthod, gellir erlyn y person cyfrifol.

Rhybudd Atal

- 4.4 Ar ôl cyflwyno rhybudd gorfodi, gallai'r Awdurdod ystyried bod unrhyw dor-rheolaeth barhaus mor ddifrifol fel bod angen ei atal ar unwaith. Mewn achosion o'r fath, cyflwynir Rhybudd Atal. Ni ellir apelio yn erbyn y rhybudd hwn. Fodd bynnag, gallai cyflwyno'r rhybudd hwn osod dyletswydd i dalu iawndal.

Rhybuddion Diddymu Hysbysebion

- 4.5 Lle mae hysbysebion ananwurdodedig yn peri niwed sylweddol i amwynder ardal neu berygl i'r cyhoedd, gall Awdurdodau Cynllunio Lleol gyflwyno Rhybudd Diddymu i gael gwared arnynt.

Gwaharddebion

- 4.6 Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud cais i'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol am waharddeb ar unrhyw adeg o'r broses gorfodi os oes ganddynt reswm da dros wneud hynny. Gallai fod yn orfodol neu'n waharddol ac fel arfer y "prawf" ar gyfer cymryd y cam hwn yw na fyddai unrhyw ddewis llai arall yn effeithiol.

Rhybudd Dan Adran 215

- 4.7 Os yw'n ymddangos i'r Awdurdod bod cyflwr eiddo neu dir yn effeithio'n wael ar amwynder yr ardal, gellir cyflwyno Rhybudd Dan Adran 215 sy'n adnabod y rhesymau pam ystyrir y cyflwr yn niweidiol a'r camau angenrheidiol er mwyn adfer y sefyllfa. Dim ond mewn Llys Ynadon y gallwch apelio ac mae methiant i gydymffurfio yn gallu arwain at erlyniad yn yr un llys. Fel arall, gall yr awdurdod ystyried cyflawni gwaith adfer angenrheidiol ei hun a cheisio adfer y costau oddi wrth y perchennog.
- 4.8 Cyflwynir **Rhybudd Atgyweiriadau Brys**, ar gyfer gwaith angenrheidiol i adeilad rhestredig a ddylai barchu natur cyffredinol yr adeilad, i'r rhai sy'n gysylltiedig â'r adeilad gwag.
- 4.9 Cyflwynir **Rhybudd Atgyweiriadau** mewn perthynas ag adeilad rhestredig meddianedig nad yw ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael ei gynnal a'i gadw'n gywir. Gall yr adeilad dan sylw dod i feddiant yr Awdurdod er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n gywir. Yn debyg mae yna ddeddfwriaeth sy'n rhoi'r pŵer i'r Awdurdod Cynllunio i gymryd camau ar safleoedd mwynol neu ble anwybyddir Gorchmynion Cadwraeth Coed.
- 4.10 Gellir gwasanaethu **Rhybudd Tor Parhad**, sy'n berthnasol i'r cynllun datblygu ac i unrhyw ddeunydd arall sydd o dan ystyriaeth, os yw Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn ei fod yn fanteisiol er lles cynllunio cywir yn ei ardal (gan gynnwys er lles amwynder) y dylid peidio â pharhau defnyddio'r tir neu dylid gosod amodau os yw'r defnydd o dir yn parhau; neu os dylid addasu neu gael gwared ar unrhyw adeiladau neu waith.
- 4.11 Gellir gwasanaethu **Gorchmyn Diddymu**, sy'n berthnasol i'r cynllun datblygu ac i unrhyw ddeunydd arall sydd o dan ystyriaeth, os yw Awdurdod

Cynllunio Lleol o'r farn ei fod yn fanteisiol i ddirymu neu addasu unrhyw ganiatâd i ddatblygu tir a ganiatawyd mewn cais.

5 Atodiad 1 Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

Prif gyswllt: Vicki Hirst *Pennaeth Rheoli Datblygiad*
Rhif Ffôn: 0845 345 7275
E-bost: dc@pembrokeshirecoast.org.uk